**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MB/MD/5414/14

David Rees AC
Cadeirydd
Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd

HSCCommittee@wales.gov.uk

6 Ionawr 2015

Annwyl David,

**Proses Gwyno'r GIG yng Nghymru**

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn eich llythyr dyddiedig 2 Rhagfyr yn gofyn am ragor o wybodaeth i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am yr amserlenni o ran cyflawni nifer o gamau gweithredu.

Fe wnaethoch ofyn yn benodol am wybodaeth ar y canlynol:

Bydd y rhaglenni peilot iWantGreatCare sydd ar waith yn Ysbyty Maelor Wrecsam ac Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr yn cael eu cwblhau erbyn canol Chwefror 2015. Bydd gwerthusiad o'r cynlluniau peilot yn dilyn hynny. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cyhoeddi gwybodaeth sy'n seiliedig ar adborth gan gleifion yn ystod y rhaglen beilot. Mae'r adborth hyd yn hyn, sydd ar gael i bawb drwy wefan iWantGreatCare, yn dangos adweithiau positif yn gyffredinol gan gleifion a'u teuluoedd.

Mae gwaith is-grwpiau'r Fforwm Ansawdd a Diogelwch Cenedlaethol wedi dechrau ers tro. Bwriedir y bydd y gwaith hwn yn dod ynghyd i'w ystyried gan y Fforwm yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2015. Bydd y broses hon yn galluogi unrhyw newidiadau posibl sy'n ofynnol i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Pryderon, Cwynion a Threfniadau Unioni Cam) (Cymru) 2011 gael eu nodi. Byddai unrhyw ddiwygiadau posibl i reoliadau yn agored i ymgynghoriad cyhoeddus.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Mark.Drakeford@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*


Mae gan y Cynghorau Iechyd Cymunedol hefyd ran lawn yn y broses hon. Mae gwaith yn mynd rhagddo eisoes ar ddatblygu protocol ffurfiol i wella cydgysylltu a chydweithio ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, gan gynnwys cyfnewid deallusrwydd ar wasanaethau'r GIG, gan gynnwys cwynion. Bydd hyn yn sail i ddull mwy strwythuredig o weithio ar y cyd rhwng y sefydliadau. Yn ogystal â hyn, mae'r cynigion i ddiwygio'r Rheoliadau a nodir yn yr ymgynghoriad cyfredol y Cynghorau Iechyd Cymuned, i roi'r pŵer i Fwrdd y Cynghorau Iechyd Cymunedol i bennu safonau yn berthnasol yn y cyd-destun hwn. Rhagwelir y byddai safon o'r fath yn cael ei datblygu mewn perthynas â gweithredu'r Gwasanaeth Eirioli Annibynnol.

Nododd Adolygiad Evans nifer o feysydd yr oedd o'r farn y byddent yn elwa o ddull cenedlaethol o weithredu. Yn fy natganiad ysgrifenedig, amlinellais yr angen i wneud gwaith pellach i benderfynu ar hyn. Wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen ac wrth i gynigion gael eu datblygu, byddai'n dod yn gliriach a fyddai unrhyw newidiadau ddim yn bosibl dan y fframwaith cyfreithiol cyfredol ac efallai y byddai angen deddfwriaeth newydd.

Byddaf yn cyhoeddi diweddariadau pellach am y gwaith hwn yn y man.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor.

Yn gywir,



**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services